

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Fehefin 2022

Croeso a Gweddi Rhoddwyd Croeso gan Y Cadeirydd, a gair o weddi gan Richard Ll. Jones.

Presennol - Y Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cynghorwyr, Sasha Williams, Richard LL. Jones, Phyllis Ellis, Ynyr Parri, Elwyn Jones, Richard Jones ac ymunodd Elfed Wyn Williams a Gareth Griffiths dros y rhyngwyd yn rhithiol.

Croesawyd Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Ymddiheuriadau - Idris Thomas, Dawn Parry, Jane Pierce, Rhian Evans-Hill, Lowri Ann James

Datgan Buddiant - Dim

Cyfethol - Cynigiwyd a chyfetholwyd y cynghorwyr canlynol:

Gareth Griffiths, Bethel

Richard LL Jones (1) Phyllis Ellis (2)

Elen George, Brynrefail

Phyllis (1) Emma Chappell (2)

Ynyr G Parri, Deiniolen/ Dinorwig

Emma Chappell (1) Phyllis Ellis (2)

Richard Jones, Deiniolen / Dinorwig

Emma Chappell (1) Ynyr Parri (2)

Trwy gyfethol, pleser yw cadarnhau fod pob sedd ar y Cyngor Cymuned yn llawn.

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 5ed Fai 2022

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Phyllis Ellis (1) Richard Ll. Jones (2)

Materion o'r Cofnodion

Yr unig fater oedd yn codi oedd ein bod angen ethol a chadarnhau aelodau ar yr Is bwyllgor Llwybrau. Gan fod nifer yn absennol, penderfynwyd symud y mater ymlaen i fis Gorffennaf

Cofnodion Cyfarfod 5ed Fai 2022

Cafwyd y cofnodion yn gywir

Emma Chappell (1) Gareth Griffiths (2)

Materion o'r cofnodion:

Cysodfan Bws Brynrefail - Yn dilyn trafferth cael coed pwrpasol i adeiladu bydd y gysgodfa'n bellach yn cael ei adeiladu a'i gosod yn yr wythnosau nesaf.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Cysgodfa'n Gwaelod Bethel - Daeth l'n sylw fod rhai o seddi'r gysgodfa'n wedi cael eu rhwygo gan fandaliaeth ac yn beryg. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Gwyn Hefin am fynd draw i wneud yn sicr fod y gysgodfa'n yn ddiogel, ac i dynnu'r seddi oedd wedi eu fandaleiddio. Yn anffodus, mae'n amhosib cael rhai run fath, ac ddim yn sicr os ydym angen cryfhau yr ochrau y gysgodfa'n. Diolch i Ynyr am fynd draw i weld a thynnu ambell lun, a holi beth sydd bosib i'w wneud.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C22/0458/18/DT Bryn Seiont, Fachwen,

Estyniad Unllaw - Dim Gwrthwynebiad

C22/0460/18/DT Bwthyn Penygroes, Penisar-waun

Dymchwel y porth blaen presennol, a chodi porth Newydd ac estyniad cefn - Dim gwrthwynebiad

C22/0517/18/DT Dolwen Llanrug

Estyniad Unllaw a deulawr, ail ddylunio'r gosodiad mewnol a phorth Newydd I ystafell wydr presennol.

Llwybrau

Rhiwlas - Llwybr Carreg y Gath

Tynnwyd sylw at y mapiau a yrrwyd allan. Mae darn o'r llwybr yma ddim yn cael ei ddangos ar y map. Cysylltodd y Clerc a Chyngor Gwynedd, a derbyniwyd ymateb fod yn well cael sortio'r llwybr gwreiddiol yn gyntaf, cyn symud ymlaen i hwn.

Materion Llwybrau sydd eisoes wedi eu codi, ond heb gael ymateb:

Llwybr 137 Llwybr o Neuadd Glasgoed i gêr Pandy. Mae'r giât ger Pandy angen ei atgyweirio.

Llwybr Cefn Capel Cysegr - y Llechi yn gwyro.

Awdit 2021

O'r diwedd derbyniwyd adroddiad archwilio'r flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2021. Nodwyd nad oedd dim wedi dod i sylw'r archwilydd oedd yn peri pryder yn y datganiad Blynyddol mewn unrhyw ffordd berthnasol. Bydd yr adroddiad a'r ffurflen yn ymddangos ar hysbysfwrdd a gwefan y Cyngor. Mae'r cofnod blynyddol ar gael i'w arolygu gan etholwyr yr ardal drwy wneud cais a'r clerc.

Awdit Mewnol a Ffurflen Flynyddol 2022

Derbyniwyd y ffurflen ac adroddiad o'r awdit mewnol yn ôl. Yr unig bwynt a godwyd gan yr archwilydd mewnol oedd bod Y cyngor heb adolygu'r Rheoliadau a Pholisïau ers Mai 2019. Yn amlwg, y rheswm dros hyn ydi ein bod wedi methu a chael y cyfle i ddweud y gwir yn dilyn y cyfnod covid, a Newydd ddod yn ôl at ein gilydd i gyfarfod wyneb yn wyneb. Awgrymwyd felly y byddai hyn yn cael ei wneud mewn cyfarfod ym mis Gorffennaf. Y clerc i yrru'r polisïau a rheoliadau fel bod pob aelod yn cael amser i'w archwilio a gwneud nodiadau cyn y cyfarfod. Yn dilyn adroddiad am 1 sic o £150 ar yr awdit llynedd, nododd y clerc fod hwn wedi ei nodi yn barod yn y ffigwr eleni.

Cymeradwyd y Ffurflen Flynyddol yn unfrydol o'r flwyddyn a ddaeth i ben ar y 31ain Mawrth 2022. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith, a bydd nawr yn paratoi a gyrru'r gwaith ymlaen I Awdit Cymru archwilio.

Clwb Ieuenctid Cymunedol

Llythyr gan Bwyllgor Pentref Deiniolen - Bu I ni dderbyn llythyr a chais i ariannu Gwasanaeth cynnal Clwb Ieuenctid yn y pentref, fel oedd yn cael ei redeg yma cyn covid gan wirfoddolwyr. Erbyn hyn, mae bosib prynu'r gwasanaeth yma gan Gyngor Gwynedd. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus yn ardaloedd cyfagos megis Bethesda a Llanrug. Cafwyd datganiad o gostau am gynnal y gwasanaeth yn fanwl.

Bu i'r Cynghorydd Sasha Williams nodi ei bod hithau wedi bod yn holi ynglŷn â'r cynllun yma yn dilyn cais gan rieni ym Methel. Mewn gwirionedd, yr un neges oedd hithau ac am yr un cynllun. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd cais yn ysgrifenedig.

Yn dilyn cryn drafod ar y mater, penderfynodd Y cyngor fod yn edrych yn gynllun da iawn, ac sydd yn amlwg yn mynd i gael ei reoli yn effeithiol gan weithwyr fydd yn cael eu cyflogi dan adain y Cyngor Sir. Bydd hyn yn sicrhau eu bod gyda chymwysterau ac yn cael hyfforddiant.

Penderfynwyd yn unfrydol ein bod yn edrych ymhellach i ariannu'r gwasanaeth yma yn Neiniolen a Bethel I ddechrau. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae angen ffurfio pwyllgor Clwb Ieuenctid neu tebyg yn Bethel, yna gyrru cais ysgrifenedig, swyddogol i'r clerc. Mae pwyllgor eisoes yn Neiniolen.

- Byddwn angen manylion a chytundeb ysgrifenedig gan y gwasanaeth yn Gyngor Gwynedd cyn y gallwn symud dim pellach, rhag ofn fod unrhyw gwestiynau pellach fydd gennym fyddai yn debygol o godi.
- Yn dilyn derbyn hyn, gallwn wedyn symud ymlaen i gadarnhau os byddwn yn derbyn y cytundeb ac yn cytuno i gyllido'r ddau glwb.

Yn ychwanegol i hyn, penderfynwyd gan mae'r Cyngor Cymuned fyddai yn ariannu'r prosiect mai da fyddai ffurfio Pwyllgor Clybiau Ieuentid Cymunedol. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn ethol 2 gynghorydd cymunedol ynghyd a 2 neu 3 aelod o bwyllgor y ddau glwb a fydd yn cyfarfod tymhorol i weld sut mae'r prosiect yn gweithio, beth sydd yn dda, a beth sydd ddim ayyb.

O Gwmpas y Bwrdd

Wâl o flaen Llys Gwynt, Penisa'r-waun yn cychwyn gwyro. Y clerch i gysylltu â Chyngor Gwynedd

Cadarnhau Taliadau:

586 - £856

587 - £200

588 - £618.76

589 - £534.11

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf 05/ 07/ 2022